



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Tai Cymunedol Bron Afon – L147

Mawrth 2018

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy>

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Is-adran Datblygu a Rheoleiddio'r Sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@wales.gsi.gov.uk

Proffil

Mae Tai Cymunedol Bron Afon Cyfyngedig ("Bron Afon" neu "y Grŵp") yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, a grëwyd yn dilyn trosglwyddo eiddo'n wirfoddol ar raddfa fawr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ym mis Mawrth 2008. Mae wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae'n Fodel Cydfuddiannol Cymunedol.

Mae ganddo dri is-gwmni:

- Afon Community Services - cwmni cyfyngedig anelusennol a sefydlwyd fel is-gwmni masnachol .
- Afon Community Trust - elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig drwy warant. Mae'n denu ac yn cyfeirio cyllid elusennol er mwyn rhoi cymorth i'r bobl sydd mewn trafferthion, yn cefnogi cyflogaeth ac yn cyfrannu at y broses o adfywio cymunedau
- Afon Energy, sy'n segur ar hyn o bryd

Mae'r Grŵp yn berchen ar fwy na 7,995 o gartrefi anghenion cyffredinol ledled Bwrdeistref Sirol Torfaen ac yn eu rheoli . Mae'n rheoli 901 o gartrefi lesddaliad a 77 o gartrefi cydberchenogaeth

Ame 85%Llwyddodd y Grŵp i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2014 ac mae wedi cynllunio rhaglen datblygu sylweddol, i ddarparu 478 o gartrefi newydd erbyn 2020.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, trosiant y grŵp oedd £43.6m (2016: £41.7m), ar gwaged oedd £41k (2016: £1.5m) ac roedd yn cyflogi 497 o staff ar gyfartaledd (2016: 507).

Data Ariannol Allweddol

	Data Hanesyddol		Terfyn Cyfamod	Cyfartaledd ar gyfer y Sector
	2015/16	2016/17		2015/16
Perfformiad				
Gwaged gweithredu fel % o'r trosiant	9.9%	6.6%	dd/g	19.1%
Gwaged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant	3.7%	0.1%	dd/g	8.7%
Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti	1.6%	2.3%	dd/g	1.6%
Cyllid				
Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm	81%	75%	dd/g	72%
Benthyciadau'r grŵp £miliwn	73.9	80.0	135.0	dd/g
Mae gan y Grŵp ddigon o gyfleusterau benthyca gwarantedig i ariannu'r gwariant a ragwelir ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn ac ad-dalu benthyciadau o'r fath.				

Barn Reoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

Statws Cydreoleiddio – Mawrth 2018

Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

Hyfywedd Ariannol - Safonol

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.